**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
**Constitutional and Legislative Affairs Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC
Y Prif Weinidog
Llywodraeth Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

10 Chwefror 2015

Annwyl Brif Weinidog

O dan Reol Sefydlog 21.2(ix) mae'n rhaid inni adrodd ynghylch a ddylai'r Cynulliad roi sylw arbennig i offeryn statudol ar y sail nad yw wedi'i wneud nac i gael ei wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Fel y gwyddoch, rydym wedi codi pryderon gyda Llywodraeth Cymru yn ystod y Cynulliad hwn ynglŷn ag offerynnau statudol ar y cyd ac offerynnau cyfansawdd sy'n cael eu gosod gerbron y Cynulliad yn Saesneg yn unig.

Roedd eich llythyr dyddiedig 1 Tachwedd 2011 yn amlinellu safbwynt Llywodraeth Cymru ar wneud offerynnau o'r fath.
14 February 2012
Rydym wedi penderfynu'n ddiweddar i roi ystyriaeth bellach i'r mater hwn. Fel cam cyntaf, rydym yn credu y byddai budd i swyddogion o Gomisiwn y Cynulliad a Llywodraeth Cymru gyfarfod i drafod y materion hyn yn fanwl.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8019
E-bost / Email: ruth.hatton@wales.gov.uk

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

Rwy'n ysgrifennu atoch felly i ofyn am eich cytundeb i'r cyfarfodydd hyn ddigwydd.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych yn fuan.

Yn gywir



**David Melding AC**
**Cadeirydd**